# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Erika Kirchner | Adran Etholiadol: | Y Castell |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd wythnosol yn y ward ac rwy'n gweithredu fel cymedrolwr rhwng cymdogion a swyddogion a chyrff allanol a phreswylwyr parthed anghydfodau, materion tai a phryderon eraill a oedd gan y preswylwyr. Gweithiais gyda'r heddlu a chyrff eraill a oedd â chysylltiad uniongyrchol ym materion ward y Castell.

Hefyd, euthum i gyfarfodydd preswylwyr a chyfarfodydd PACT (Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd) yn y ward.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 10 | / | 15 | 67 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 5 | / | 12 | 42 | % |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 3 | / | 6 | 50 | % |
| Y Cyngor | 11 | / | 15 | 73 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 3 | / | 8 | 38 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 3 | / | 8 | 38 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 6 | / | 12 | 50 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 3 | / | 3 | 100 | % |
| CYFFREDINOL | 44 | / | 79 | 56 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

Cefais oddefeb ddechrau 2014 oherwydd materion iechyd.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Llywodraethwr Ysgol Gynradd San Joseff a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Heol Teras. Roeddwn yn aelod o Gyngor Iechyd Cymunedol Abertawe Bro Morgannwg.

Roeddwn hefyd y Cynghorydd Hyrwyddwr dros Gam-drin yn y Cartref a chadeiriais y Fforwm Cam-drin yn y Cartref a'r Siop dan yr Unto. Cynrychiolydd y cyngor hefyd ar gyfer Pwll Cenedlaethol Cymru.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fel Cadeirydd y Fforwm Cam-drin yn y Cartref, goruchwyliais gefnogaeth gan yr Elyrch a'r Gweilch yn erbyn cam-drin yn y cartref.

Cefnogais ddatblygiad Parc Bryn y Don a phrosiect Llysiau'r Vetch yn hen Gae'r Vetch Dinas Abertawe.

Hefyd, cyd-drafodais fynediad i breswylwyr ar lwybrau bws.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
14/10/2013 - Cyn-benderfynu
08/07/2013 - Adolygiad Datblygiad Personol

Hefyd, dechreuais Raglen Datblygu Hyrwyddwyr Cydraddoldeb CLlLC ym mis Mawrth 2014, a fydd yn parhau i flwyddyn ddinesig 2014-2015.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Fel Cadeirydd y Fforwm Cyswllt Myfyrwyr, sicrheais swydd i swyddog oruchwylio'r holl faterion parthed myfyrwyr ar draws Abertawe, gan integreiddio myfyrwyr â bywyd cymunedol a lleihau problemau.

Ymwelais â phreswylwyr gartref yn aml ac mae gennyf bolisi drws agored ac mae fy rhif ffôn symudol cyhoeddus wedi'i hysbysebu.

Rwy'n mynd i unrhyw ddigwyddiad cyhoeddus y caf wahoddiad iddo.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 15.07.14 |